

Tocynnau trên i weithwyr rhan-amser yng Nghymru



Chwarae Teg a Sustrans Cymru

Gall teithwyr trên ledled Cymru elwa ar Docynnau Tymor am bris gostyngedig sy'n dipyn rhatach na phrynu tocyn dwyffordd bob dydd.

Mae tocynnau tymor ar gael am gyfnodau o 3 mis, mis a hyd yn oed 7 diwrnod yn ogystal â blwyddyn. Y tocynnau tymor am y cyfnodau hiraf sy'n cynnig y disgowntiau mwyaf.

Ond nid yw gweithwyr rhan-amser yn derbyn disgownt o'r fath. Mae'r rhai sy'n gweithio dau neu dri diwrnod yr wythnos yn wynebu colli arian ar docynnau tymor nad ydynt yn gallu manteisio'n llawn arnynt, neu brynu tocynnau dwyffordd drud yn y cyfnodau prysur.

Gallai cyflwyno tocynnau tymor rhan-amser gynorthwyo mwy o bobl i allu fforddio dychwelyd i'r gwaith, mwy o gyfleoedd i gael swyddi sy'n talu'n well mewn meysydd eraill, neu ddewis teithio ar drên yn hytrach na gyrru car preifat – gan leihau tagfeydd a mynd i'r afael â'r mater o dlodi trafnidiaeth yng Nghymru.

Mae menywod yng Nghymru'n fwy tebygol o fod yn weithwyr rhan-amser na dynion, ac yn tueddu i fod yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Felly, gallai cyflwyno tocynnau am bris gostyngedig ar gyfer teithio rhan-amser wneud cyfraniad allweddol at leihau tlodi ymysg menywod yng Nghymru.

Gwaith rhan-amser yng Nghymru

Mae gan Gymru nifer sylweddol o weithwyr rhan-amser a gallai oriau rhan-amser fod yn fwy addas i lawer o bobl sy'n chwilio am waith yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae ychydig dros chwarter y gweithlu, sef 26% o weithwyr yng Nghymru, yn weithwyr rhan-amser cyflogedig¹.

Ar gyfartaledd, mae gweithwyr rhan-amser yng Nghymru hefyd yn ennill llai yr awr na'u cydweithwyr llawn amser. £455 yw cyflog wythnosol gros gweithwyr llawn amser, ond dim ond £151 yw cyflog wythnosol gros gweithwyr rhan-amser².

Fesul awr, mae gweithwyr llawn amser yn ennill £11.63 yng Nghymru, ond dim ond £7.62 y mae eu cydweithwyr rhan-amser yn ei ennill³.

Mae gan Gymru y gyfran uchaf (26%) o weithwyr cyflog isel (dan 2/3 y cyflog canolrifol yr awr) yn y DU.⁴

Er hynny, ni all gweithwyr rhan-amser fanteisio ar lawer o ddisgowntiau teithio rhan-amser, os o gwbl, ar y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

Yr effaith ar fenywod

Mae mwy o fenywod na dynion yng Nghymru'n gweithio'n rhan-amser, gyda 44% o'r menywod sy'n gweithio yng Nghymru'n gweithio'n rhan-amser.⁵

¹ Arolwg Poblogaeth Blynyddol, drwy NOMIS 19/08/13

² ASHE, drwy NOMIS 19/08/13

³ Ibid.

⁴ Pennycook, M. a Whittaker, M (2012) *Low Pay Britain 2012*, Resolution Foundation, Llundain

Menywod sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus fwyaf, er enghraifft, yng Nghymru, menywod yw 56% o ddefnyddwyr bysiau.⁶ Ledled Cymru, mae gan bron i ddwy aelwyd o bob tair un car yn unig neu ddim car o gwbl⁷ - sy'n cyfyngu'r dewisiadau trafndiaeth i'r ail enillydd - sy'n fwy tebygol o fod yn fenyw o hyd - wrth ddechrau gweithio. Yn benodol, mae lefelau perchnogaeth car yn is yn y Cymoedd, lle mae'r rhwydwaith rheilffyrdd yn fwyaf eang.

Mae asesiad Llywodraeth Cymru o effaith ei chyllideb drafft ar gydraddoldeb yn nodi bod gan 61% o fenywod drwydded yrru, o gymharu â 79% o ddynion, a bod menywod ddwywaith yn fwy tebygol na dynion o deithio i'r gwaith ar y bws (yr opsiwn trafndiaeth gyhoeddus mwyaf fforddiadwy).⁸

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion hefyd o fyw mewn tldi, maent yn wynebu mwy o berygl o ddisgyn i dlodi ac, mewn sawl achos, mae eu hincwm yn penderfynu a yw teulu'n byw mewn tldi ai peidio.

Bydd tri chwarter o'r arbedion lles yn dod o bocedi menywod.⁹ Bydd menyw sy'n gweithio 16 awr yr wythnos yn gweld ei hincwm yn cael ei gwtogi o £47 i £17.50.¹⁰

Faint allai gweithwyr rhan-amser ei arbed?

Trwy gyflwyno tocynnau tymor rhan-amser, gallai defnyddwyr rheilffyrdd mewn rhai rhannau o Gymru arbed hyd at £640 y flwyddyn pe baent yn derbyn yr un ganran o ddisgowntiau â'r rhai sy'n prynu tocynnau tymor mis.

Hyd yn oed wrth gymharu â phrynu tocynnau tymor 7 diwrnod, pe baent yn derbyn yr un disgownt â gweithwyr llawn amser, gallai gweithwyr rhan-amser arbed hyd at £300 y flwyddyn ar rai teithiau.

Taith	Tocyn Tymor 7 diwrnod	5 x Tocyn Dwyffordd Dydd	% o arbedion	3 x Tocyn Dwyffordd Dydd	Arbedion blynyddol
Y Fflint – Wrecsam	£34.40	£38.50	11%	£23.10	£98.40
Caerffili – Caerdydd	£22	£32	31%	£19.20	£240
Machynlleth – Aberystwyth	£24.80	£31.50	21%	£18.90	£160.80

Taith	Tocyn Tymor 1 mis	25 x Tocyn Dwyffordd Dydd	% o arbedion	15 x Tocyn Dwyffordd Dydd	Arbedion blynyddol
Llanelli – Abertawe	£60	£135	56%	£81	£540
Y Pîl – Caerdydd	£116	£205	43%	£123	£640.80
Pontypridd – Caerdydd	£84.50	£160	47%	£96	£543.60

⁵ Chwarae Teg (2013) *Lle'r Fenyw*, CT, Caerdydd

⁶ <http://www.poverty.org.uk/w75/index.shtml>

⁷ 2011 Census: KS404EW Car or van availability, local authorities in England and Wales

⁸ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2014-15: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

<http://wales.gov.uk/topics/equality/inclusivepolicy/impactassessments/draftbudget1415eja/?lang=cy>

⁹ Fawcett Society (2013) Cutting Women Out Campaign: <http://uat.fawcettsociety.org.uk/cutting-women-out/>

¹⁰ Winckler, V. (2012) *Universal Credit threat to equality*, Sefydliad Bevan, Merthyr Tudful